
Dŵr Cymru
Welsh Water



# Datrys problemau gyda dŵr - 2

## 1 litr o ddŵr glân o'ch tap = tua 0.25 ceiniog.
## Felly, 4 litr = 1 geiniog.

1 Mae toiled arferol yn defnyddio 9 litr o ddŵr bob tro rydych yn tynnu'r dŵr. Mewn un teulu, roedd y dŵr yn cael ei dynnu 21 gwaith mewn diwrnod. Sawl litr o ddŵr fyddai'n cael ei ddefnyddio yn y toiled mewn wythnos?

2 Edrychwch ar eich ateb i gwestiwn 1. Pe bai bag hipo yn y seston, byddai'n arbed 3 litr o ddŵr bob tro. Cyfrifwch sawl litr o ddŵr y byddai'r teulu'n eu defnyddio i dynnu dŵr y toiled pe baent yn gosod bag hipo.

3 Mae Molly'n rhoi dŵr i'r ardd o gan dŵr sy'n dal 10 litr o ddŵr. Os yw'n defnyddio 5 llond can dŵr bob nos am bythefnos, faint o ddŵr fydd hi'n ei ddefnyddio?

4 Mae Ben yn cael pum cawod mewn wythnos ac mae Kyle yn cael pum bath. Os yw'r gawod yn defnyddio 35 litr o ddŵr a'r bath yn defnyddio 80 litr, cyfrifwch faint o ddŵr mae Ben a Kyle yn ei ddefnyddio a'r gwahaniaeth rhyngddynt.

5 Mae pibell ddŵr Jac yn defnyddio 560 litr o ddŵr mewn awr. Os yw'n rhoi dŵr i'r ardd am 15 munud, sawl litr fydd yn eu defnyddio? Mae can dŵr yn dal 10 litr, sawl can dŵr fyddai'n rhaid i Jac eu defnyddio i roi'r un faint o ddŵr?

6 Mae mesurydd dŵr yn nodi bod teulu'n defnyddio 824 litr o ddŵr bob dydd. Os yw pawb yn y teulu'n defnyddio 206 litr o ddŵr yr un, faint o bobl sydd yn y teulu?

7 Mae Jamie wedi anghofi o diffodd y chwistrellydd dŵr yn yr ardd ac wedi mynd allan am y prynhawn. Mae'r chwistrellydd yn defnyddio 600 litr o ddŵr mewn awr. Os yw wedi troi'r chwistrellydd ymlaen am 1 o'r gloch a'i fod yn dod adref ac yn ei ddiffodd am 5.30 o'r gloch, faint o ddŵr mae'r chwistrellydd wedi'i ddefnyddio?

8 Mae Millie yn cerdded at y pwmp dŵr bob dydd cyn mynd i'r ysgol. Mae'n cymryd awr i gerdded yno ac mae'n rhaid iddi giwio am awr am y dŵr. Mae'n cymryd awr arall iddi gerdded adref. Dechreuodd wneud hyn ar ei phen-blwydd yn 6 oed ac mae hi'n 12 oed heddiw. Cyfrifwch sawl awr mae hi wedi'i dreulio'n cario dŵr. (Does dim angen cyfrif blwyddyn naid).

9 Mae ffrind Millie, Mbaba yn 15 oed. Mae'n cario llestr dŵr sy'n dal 20 litr o'r un pwmp dŵr. Mae'n casglu dŵr unwaith bob dydd. Cyfrifi wch faint o ddŵr mae hi'n ei gasglu ym mis Awst, mis Medi a mis Hydref.

10 Mae 1 litr o ddŵr yn pwyso 1kg. Cyfrifwch bwysau'r dŵr mewn 3 bath (80 litr ym mhob bath) a phwysau'r dŵr os ydych yn tynnu dŵr y toiled 5 gwaith (9 litr bob tro). Os yw Jess yn pwyso 30kg, faint yn fwy yw pwysau'r dŵr?

